# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies (Cadeirydd), Meirick Davies, Peter Duffy, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley, Bill Cowie, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Alan James, Win Mullen-James, Bob Murray, Bill Tasker a/ac David Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Jason McLellan, Martyn Holland a Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Raymond Bartley a fu farw ychydig cyn y Nadolig.

Rhoddwyd teyrngedau gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, ar ran Plaid Cymru, y Cynghorydd Joe Welch ar ran y Grŵp Annibynnol, y Cynghorydd Colin Hughes ar ran y Grŵp Llafur a'r Cynghorydd Martyn Holland, ar ran y Grŵp Gwleidyddol.

Cydymdeimlwyd â gwraig a theulu'r Cynghorydd Bartley ac, fel arwydd o barch, fe safodd pawb a oedd yn bresennol mewn tawelwch yn deyrnged iddo.

Yna siaradodd y Cadeirydd ynglŷn â Diwrnod Cofio'r Holocost. Darllenodd gerdd, Yn gyntaf fe ddaethon nhw, gyda'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yn darllen cerdd o'r enw "Birdsong" i ddilyn, a oedd wedi cael ei hysgrifennu'n arbennig ar gyfer thema eleni gan Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 5 Rhagfyr 2016 ac 27 Ionawr 2017 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Canmolodd y Cadeirydd Sarah Dixon, y Cydlynydd Cyfoethogi Cwricwlwm am drefnu'r digwyddiadau Harry Potter yn yr ysgolion.

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu dangosiad agoriadol y ffilm Star Wars, a oedd â'r gŵr lleol, Spencer Wilding, yn chwarae rhan Darth Vader.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn ar 6 Rhagfyr 2016.

Dymunodd y Cynghorydd Arwel Roberts ddiolch i Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd am y gwaith a wnaed ynghylch "Dronau". Estynnodd y Cynghorydd Roberts ei ddiolch i'r Cynghorydd Jason McLellan a'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu a drafododd y 'Dronau' a hefyd y busnesau a oedd yn dibynnu arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 CYMERADWYO CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson Hill adroddiad Cynigion Terfynol - Cyllideb 2017/18 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2017/2018 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2017/2018.

Roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Pwrpas yr adroddiad oedd darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith Setliad Llywodraeth Leol ac ystyried cynigion i osod y gyllideb ar gyfer 2017/18, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2017/18 ar 21 Rhagfyr ac roedd yn darparu cynnydd o ran arian parod o 0.6%.  Roedd y Setliad Dros Dro yn rhoi cynnydd o 0.5%.  Er bod y Setliad yn darparu ar gyfer cynnydd o ran arian parod, mewn termau real roedd yn doriad gan nad oedd yn rhoi unrhyw ystyriaeth i chwyddiant na phwysau o ran y galw ar wasanaethau.

Gan fod y cyllid ar gyfer y Cynllun Cwtogi Treth y Cyngor wedi cael ei rewi am sawl blwyddyn, roedd yn rhaid i'r Cyngor ariannu cost y cynnydd mewn Treth y Cyngor a amcangyfrifwyd i fod yn £350,000.  Byddai'r cynigion yn caniatáu £200,000 o fuddsoddiad newydd mewn blaenoriaethau.

Lefel y cynnydd mewn Treth y Cyngor a gynigwyd oedd 2.75%.  Roedd hyn yn unol â rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant am y flwyddyn i ddod ac roedd yn debyg o fod yn is na lefel cyfartalog y cynnydd yng Nghymru.

Yn y Gweithdy Cyllideb ym mis Tachwedd 2016, bu peth trafodaeth ynghylch lefel cynnydd Treth y Cyngor ac effaith canlyniadol lefelau cynnydd is neu uwch ar y gyllideb.

O ystyried yr ystod o bwysau roedd y Cyngor yn ei wynebu, yn arbennig y pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol a thrywydd cyffredinol chwyddiant, credid fod cynnydd o 2.75% yn ddarbodus ac yn gynaliadwy.

Atgoffwyd yr Aelodau gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, mai hon fyddai'r gyllideb olaf fyddai'r Cyngor cyfredol yn ei phennu a hon fyddai'r bwysicaf. Tymor y Cyngor cyfredol fu'r un mwyaf heriol i Sir Ddinbych ei wynebu, ond yn ystod y tymor hwnnw, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i fod yn un o'r cynghorau oedd yn perfformio orau yng Nghymru.  Byddai angen i'r Cyngor newid sut byddai'n darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddiolch i'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad a'r Tîm Cyllid am eu gwaith yn ystod tymor y cyngor cyfredol.

Yn ystod y drafodaeth, soniwyd am y materion canlynol:

- Effeithlonrwydd ynni – roedd y cyngor yn aelod o fframwaith caffael a oedd yn golygu'r cyfraddau gorau oedd ar gael ar gyfer nwy a thrydan.  Roedd pris olew wedi codi a oedd wedi golygu cynnydd mewn prisiau.  Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud ei orau i gadw costau ynni cyn lleied â phosibl e.e. gosod goleuadau LED yn lle goleuadau stryd, ac roedd gwaith wedi cael ei wneud ynghylch rhoi caeadau ar byllau nofio er mwyn cadw ynni.  Roedd llawer o adeiladau Fictoraidd yn perthyn i'r Cyngor nad oedd yn effeithlon o ran ynni, felly, roedd amrywiaethau o ran costau allanol.
- Doedd gan Sir Ddinbych ddim mewnbwn ym mhraesept yr Heddlu gan eu bod yn gorff ymreolaethol y mae Sir Ddinbych yn casglu arian ar eu rhan ac yn anfon y swm maent yn ddisgwyl atynt.  Hon oedd y ffordd fwyaf effeithlon i'r holl elfennau gael eu casglu gyda'i gilydd.
- Roedd yr holl grantiau a gyhoeddwyd hyd yma â gostyngiadau bach, ond nid oeddent wedi'u torri'n ormodol.

- O ran y Cynllun Ariannu Preifat, cafodd ei derfynu i ddod ag arbedion. Ers hynny, roedd cynghorau eraill wedi cysylltu gyda Sir Ddinbych yn gofyn am gyngor ynghylch eu contractau adeiladau Cynllun Ariannu Preifat.
- Cafodd yr Asesiadau Effaith ar Les eu beirniadu gan rai aelodau gan nad oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth. Cadarnhawyd gan yr Aelod Arweiniol dros gan yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad bod yr Asesiadau yn newydd ond eu bod yn waith sy'n mynd rhagddynt, ac felly nid oeddent ar eu ffurf terfynol. Roedd y Prif Weithredwr wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys ym mhob argymhelliad ar gyfer pwyllgorau cyhoeddus wedi hyn.
- Mynegodd nifer o aelodau eu hanghytundeb i'r codiad o 2.75% a argymhellwyd yn Nhreth y Cyngor. Nodwyd bod y drafodaeth hon wedi digwydd yn y gweithdai cyllideb a chafwyd cytundeb i gario'r 2.75% drosodd i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

Eglurodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau mai hon oedd cyllideb derfynol y cyngor cyfredol. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, bu buddsoddiad mewn ysgolion a llyfrgelloedd, roedd Hamdden wedi gwneud yn dda iawn. Er y cymerwyd £30miliwn allan o wariant Sir Ddinbych, roedd y cyngor wedi cadw'i safle fel un o'r cynghorau blaenllaw.

Bu pwysau ar y Cyngor, roedd wedi colli 15% o'i staff dros y 5 mlynedd diwethaf, roedd 10 adeilad cyngor swyddogol wedi mynd i lawr i 4 ac yn fuan byddai i lawr i 3. Roedd hyn wedi arbed arian i'r Cyngor heb effeithio ar ansawdd y gwasanaeth. Eleni, roedd £1.9miliwn wedi cael ei roi i mewn i addysg a chynyddu gofal cymdeithasol.

Rhagwelwyd mai'r flwyddyn gyfredol fyddai'r olaf o'r cyllidebau da. Roedd y gyllideb wedi cael ei chydbwyso gan ddefnyddio arian parod, ond nid oedd hynny'n gynaliadwy.

Roedd yn bwysig gwerthfawrogi beth oedd wedi cael ei wneud yn dda yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ond roedd y dyfodol yn rhagweld amseroedd anodd o flaen pob cyngor.

Ar yr adeg hon, CYNIGODD y Cynghorydd Rhys Hughes osod lefel treth y cyngor ar 2.5%, EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai angen pleidleisio ar y newid a gynigwyd gan y Cynghorydd Rhys Hughes, a eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, yn y lle cyntaf am gynnydd treth y cyngor o 2.5%.

PLEIDLAIS:
O blaid - 4
Ymatal - 1
Yn erbyn - 27

Felly, ni chafodd y diwygiad ei gymeradwyo.

CYNIGODD yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr argymhelliad gwreiddiol ar gyfer codiad treth y cyngor o 2.75%, a EILIWYD gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans.

Cytunwyd gan yr holl Aelodau i ddileu dyddiad y gweithdy cyllideb (1 Tachwedd 2016) o'r argymhelliad.

PLEIDLAIS:
O blaid - 29
Ymatal - 1
Yn erbyn - 4

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn:*

- *Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2017/18;*
- *Cymeradwyo'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, er mwyn cwblhau cyllideb 2017/18.*
- *Cymeradwyo'r codiad cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 2.75% sy'n ofynnol i gefnogi'r cynigion cyllideb.*

## 7 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson Hill yr Adroddiad Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor 2017/18 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 roedd budd-dal treth y cyngor wedi dod i ben ac roedd y cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

CYNIGODD y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhellion yr adroddiad, ac fe'i EILIWYD gan y Cynghorydd Colin Hughes.

PLEIDLAIS:
O blaid - 34
Ymatal - 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau yn:*

- *Mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2017, o ran blwyddyn ariannol 2017/18.*
- *Cymeradwyo'r 3 elfen ddewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.2, yn cael eu parhau yn 2017/18.*

**Ar y pwynt hwn (12.10 pm) cafwyd egwyl o 25 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.35 p.m.**

## 8 CYMERADWYO CANOLFAN DDŴR Y RHYL

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Aelodau ystyried cynigion i ddatblygu 'Parc Dŵr ac Atyniad Hamdden y Rhyl' – teitl dros dro (RWLA).

Ystyriwyd mai uwchraddio'r ddarpariaeth hamdden a thwristiaeth ar yr arfordir ar gyfer y dyfodol oedd elfen fwyaf hanfodol adfywiad cyffredinol y Rhyl - gan ei wneud yn lle gwell i fyw yn ogystal ag yn lle gwych i ymweld ag ef. Roedd y gadwyn o ddigwyddiadau a arweiniodd at y cynnig datblygu wedi estyn dros 6 mlynedd.

Roedd yn bwysig nodi bod y cynigion ar gyfer y 'Glannau' newydd wedi'u datblygu mewn ffordd oedd yn cwblhau'r cynllun adfywio arfordirol cyfan ac, oherwydd ei leoliad, roedd yn ymddwyn fel catalydd i ddenu mwy o ymwelwyr i'r Rhyl ac arwain mwy o bobl trwy Ganol y Dref.

Roedd y lleoliad yn agos at ganol y dref wedi cael ei ystyried yn bwysig iawn o ran goblygiadau adfywio a chynhyrchu ymwelwyr y datblygiad.

Yn ystod tymor y cyngor hwn roedd mwy o gynllunio strategol wedi digwydd. Byddai Canolfan Ddŵr y Rhyl yn fuddsoddiad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gyda'r gobaith byddai'r Rhyl yn symud o fod yn brosiect adfywio heriol i fod yn un datblygu economaidd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wrth yr Aelodau mai'r strategaeth gyfredol oedd i symud y Rhyl i fod yn ardal datblygu economaidd ac mai'r prosiect allweddol oedd i gynyddu'r ymwelwyr â'r dref i greu mwy o swyddi a chaniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer pobl leol.

Roedd y cam adfywio blaenorol wedi creu cartrefi newydd gyda phreswylwyr egnïol a byddai gwaith yn awr yn dechrau gyda datblygu'r glannau.

Dangosodd yr Asesiad Effaith Economaidd gyllid ychwanegol yn dod i mewn i'r dref ynghyd â 60 o swyddi ychwanegol ar gyfer pobl leol a fyddai mewn lle da ar gyfer y swyddi hynny pan fyddent ar gael.

Rhoddodd y Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Rheoli gyflwyniad i roi mwy o fanylion am atyniad Parc Dŵr a Hamdden y Rhyl. Rhoddwyd eglurhad ynghylch y ddau opsiwn a'r rhesymau pam fod swyddogion yn ystyried Opsiwn 2 i fod yr opsiwn a ffafrir, ar sail cost ond yn bwysicaf oll profiad y cwsmer a phreswylwyr.

Roedd Cyngor Tref y Rhyl am wneud cyfraniad cyfalaf o £2filiwn, ynghyd â chyfraniad oddi wrth Lywodraeth Cymru o £800,000. Byddai'r cyfraniadau hyn yn

gostwng cyfraniad cyfalaf y Cyngor a chostau Benthyca Darbodus gan tua £159,000.

At ddibenion yr achos busnes, roedd y targedau incwm yn geidwadol iawn a'r disgwyl oedd y byddai'r rhain yn uwch. Roedd partneriaethau lleol yn gyfforddus bod tybiaethau incwm yr achos busnes yn seiliedig ar breswyliaeth o 60% yn gyraeddadwy erbyn blwyddyn 5 a'u bod yn sylfaen ddarbodus ar gyfer cyllidebu. Hanes cyfredol y Cyngor (model hamdden cryf – Nova) oedd lefel preswyliaeth o 75% ar draws ei gyfleusterau eraill.

Y camau nesaf oedd ddechrau'r broses gynllunio gydag ymgysylltu cyhoeddus llawn ynglŷn ag elfennau cynllunio'r cynllun. Pe cafwyd caniatâd cynllunio ym mis Gorffennaf 2017, byddai'r prosiect yn dechrau ar y safle ym mis Medi 2017 gyda'r cyfleuster newydd yn agos yn gynnar yn 2019.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid yr opsiynau ar gyfer ariannu blynyddoedd 1-4.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol - Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad mai'r argymhelliad oddi wrth y Grŵp Buddsoddi Strategol oedd cytuno ar Opsiwn 2. Rhoddwyd sicrwydd bod hwn wedi bod yn brosiect a adolygwyd yn llym iawn. Byddai'n dibynnu'n helaeth ar y preswyliaeth yn taro'r targed o 60% ac erbyn blwyddyn 5 byddai'r Cyngor yn edrych ar gynnig niwtral o ran cost ar gyfer y prosiect.

Yn ystod trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Y gwersi a ddysgwyd ers y prosiect Nova – roedd angen cymryd amser ar atyniad Glannau y Rhyl gan y byddai'n gyfleuster mor fawr. Bu astudiaethau manwl o'r chwaraeon dŵr i'r gogledd o'r A55 a dadansoddiad manwl o flynyddoedd olaf yr Heulfan. Ymagwedd y cyfleuster wastad oedd i ychwanegu at atyniadau eraill.
- Bu'n benderfyniad anodd i gau yr Heulfan ond byddai'r atyniad glannau newydd yn ased i'r arfordir a Sir Ddinbych fel sir.
- Byddai Canolfan Hamdden y Rhyl yn cadw'r pwll nofio gan fod ysgolion lleol a chlybiau nofio yn defnyddio'r cyfleuster ar gyfer gwersi nofio.
- Byddai'r atyniad glannau newydd yn cynnwys parc sblasio dan do a thu allan – byddai'r cyfleuster dan do ar agor trwy'r flwyddyn. Byddai strwythur dringo mawr, darpariaeth bwyd a diod, lle gwylio dan do a thu allan ac ystafelloedd newid tu mewn a thu allan yn cael eu cynnwys yn y cyfleuster.
- Byddai'r parc sglefrio yn cael ei adleoli yn dilyn trafodaeth gyda'r gymuned a phobl ifanc a oedd yn defnyddio'r parc.
- Ynglŷn â fforddiadwyedd a theithio i'r cyfleuster. Bydd wedi ei leoli mewn man canolog ar gyfer mynediad hawdd gan fysus, trenau a pharcio ceir Byddai cerdyn gostyngiad yn cael ei gynnig i breswylwyr Sir Ddinbych a oedd yn ddeiliaid cerdyn hamdden. Y gost a ragamcanwyd ar hyn o bryd ar gyfer tocyn teulu fyddai £39.
- Byddai'r maes parcio tanddaearol gerllaw ardal y tŵr awyr yn cael ei uwchraddio er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o ddefnyddwyr ceir yn ei ddefnyddio.

- Mynegodd nifer o Gynghorwyr bryder ynglŷn â'r risg o ran y swm o £2filiwn a oedd i ddod oddi wrth Gyngor Tref y Rhyl. Gofynnwyd sut oedd y Cyngor Tref yn bwriadu cynhyrchu'r nawdd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wrth yr Aelodau nad y Cyngor Llawn oedd y fforwm i godi'r mater hwn ac mai mater i Gyngor Tref y Rhyl oedd sut yr oeddent am godi'r arian.
- Byddai'r cyfleuster glannau yn darparu cyflogaeth trwy gydol y flwyddyn ar gyfer pobl leol a fyddai'n helpu gydag adfywio'r dref.
- Byddai marchnata'r cyfleuster yn holl bwysig a byddai'r cyngor yn darparu marchnata rhagorol o ran y cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb ar-lein ac ati. Gyda'r fframwaith, byddai Alliance Leisure a Neptune yn bartneriaid i'r Cyngor i gynorthwyo'r cyfleuster i gynyddu ei lefelau preswyliaeth.
- Nodwyd bod angen rhoi elw yn ôl i hamdden ac y bu cynlluniau yn y dyfodol i wneud gwaith ar wahanol ganolfannau hamdden ledled y sir
- Byddai arwyddion ffyrdd a llwybrau yn cael achrediad i gynorthwyo gyda chyfeirio pobl trwy'r dref ac oddi ar yr A55.

CYNIGODD y Cynghorydd Hugh Evans yr argymhelliad, ac EILIWYD hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor.

Estynnwyd diolch i'r tîm cyfan am eu gwaith a'u parodrwydd i fwrw ymlaen a buddsoddi a gwella'r Rhyl.

PLEIDLAIS:
O blaid - 27
Ymatal - 1
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn:*
- *Cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fabwysiadu Opsiwn 2 yr achos busnes i ddatblygu Parc Dŵr ac Atyniad Hamdden newydd yn y Rhyl fel rhan o raglen gyffredinol Adfywio a Datblygu Glannau'r Rhyl fel y'i disgrifir yn Atodiad B. Mae hyn yn cynnwys rhagdybiaethau o £2filiwn o gyfraniad ariannol gan Gyngor Tref y Rhyl ac £800,000 o gronfa Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) Llywodraeth Cymru.*
- *Cytuno i'r strategaeth gyllido a nodir yn Adran 6.*
- *Cyfarwyddo swyddogion i symud ymlaen â'r camau nesaf o weithredu, gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth cynllunio a sicrhau cyfraniadau cyllidol gan Gyngor Tref y Rhyl a Llywodraeth Cymru gan alluogi'r cyfleuster i fod ar agor erbyn dechrau 2019.*

**9 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

"Bod Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud parcio am ddim ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas ym meysydd parcio'r Cyngor yn Sir Ddinbych, a thrwy hynny'n trin pobl anabl mewn modd teg a chyfartal yn ei Awdurdod ac ar draws Gogledd Cymru".

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd mai'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â deiliaid bathodyn glas oedd i ddarparu hygyrchedd nid parcio am ddim. Awgrymwyd bod y mater yn cael ei anfon i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio i'w drafod mewn Pwyllgor Archwilio, yn dilyn hynny, byddai'r broses yn darparu argymhelliad i'r swyddogaeth Weithredol.

Ar y pwynt hwn, cododd pawb eu dwylo i gytuno â hynny'n unfrydol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig ynglŷn â pharcio am ddim ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn cael ei gyflwyno i'r grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio i'w ystyried.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro/ Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

14 Chwefror 2017 – Adolygu'r Cydbwysedd Gwleidyddol – byddai'r eitem hon bellach yn cael ei thrafod yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor i'w gynnal ar 23 Mai 2017.

4 Ebrill 2017 – Cydnabyddiaeth i Aelodau – byddai'r eitem hon bellach yn cael ei thrafod yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor i'w gynnal ar 23 Mai 2017.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 pm.**